

|                                  |   |
|----------------------------------|---|
| <b>Adroddiad ar gyfer</b>        | Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio  |
| <b>Dyddiad y cyfarfod</b>        | 26 Ionawr 2022  |
| <b>Aelod / Swyddog Arweiniol</b> | Y Cynghorydd Brian Jones (Aelod Arweiniol dros Wastraff, Cludiant a'r Amgylchedd), y Cynghorydd Tony Thomas (Aelod Arweiniol dros Dai a Chymunedau), / Alan Smith (Pennaeth Gwasanaeth Modelu Gwybodaeth Adeiladu a Phrif Berchennog Cyfrifol y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol) |
| <b>Awdur yr Adroddiad</b>        | Helen Vaughan-Evans / Andrew Cutts (Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd / Dros Gyfnod Mamolaeth)   |
| <b>Teitl</b>                     | Adroddiad Archwilio Cymru – Cyngor Sir Ddinbych, Cyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol   |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1. Y mae'r adroddiad hwn yn crynhoi Adroddiad Archwilio Cymru am Gyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol yng Nghyngor Sir Ddinbych, ac yn rhoi ymatebion Swyddogion i'r Cynigion Gwella.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1. I sicrhau bod Aelodau Etholedig yn cael gwybod am arsylwadau a gweithredoedd yn dilyn archwiliad allanol ar Gyngor Sir Ddinbych, ac yn gallu craffu arnynt.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod Aelodau yn ystyried yr adroddiad, y Cynigion Gwella cysylltiol ac ymatebion Swyddogion, ac yn rhoi adborth fel y bo'n briodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

- 4.1. Rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mehefin 2021, cynhaliwyd adolygiad gan Archwilio Cymru o allu Cyngor Sir Ddinbych i gyflawni ei uchelgeisiau amgylcheddol, yn

cynnwys sut y mae'r Cyngor yn bwriadu integreiddio, sefydlu, mesur, a chyfathrebu ei uchelgeisiau amgylcheddol. Mae'r adroddiad llawn wedi ei gynnwys yn Atodiad 1.

4.2. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2021, a daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn gwneud cynnydd ardderchog yn y gwaith o sefydlu ei uchelgeisiau amgylcheddol.

4.3. Yr oedd yr adroddiad yn datgan ei fod wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd:

- Bod y Cyngor wedi gweithredu'n gyflym i sefydlu ei uchelgeisiau amgylcheddol yn ei fframweithiau cynllunio strategol ac wedi dyrannu adnoddau sylweddol, ond ni wyddys cost lawn yr uchelgais ar hyn o bryd.
- Y mae'r Cyngor wedi cyfathrebu'n dda gyda'r dinasyddion, gan geisio rhoi gwybodaeth, dylanwadu a newid ymddygiad, a byddai mapio mwy cynhwysfawr o fudd-ddeiliaid yn cryfhau ymgysylltiad ymhellach.
- Y mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i gyfathrebu gyda chynghorwyr a staff, a'u hyfforddi, ac er bod eu dealltwriaeth yn datblygu'n dda, y mae angen mwy o fanylion ar yr hyn y mae 'ecolegol gadarnhaol' yn ei olygu i'r Cyngor a sut y mae'r uchelgeisiau'n dylanwadu ar waith pob dydd pawb.
- Mae'r Cyngor wedi gosod mesurau gwaelodlin gan ddefnyddio fframwaith perfformiad sefydledig. Bydd adrodd dros y flwyddyn nesaf yn gymorth i sefydlu'r uchelgeisiau amgylcheddol ac i ddatblygu'r mesurau.

4.4. Y mae'r adroddiad yn mynd rhagddo i wneud 10 argymhelliad ar gyfer gwella. Y mae Atodiad 2 yn rhoi'r argymhellion ar gyfer gwella ac ymateb cychwynnol swyddogion, yn cynnwys yr hyn y cynigir ei wneud mewn ymateb.

## **5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd cyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol y Cyngor yn gwneud cyfraniad uniongyrchol tuag at gyflawni datganiad Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol y Cyngor, sydd yn ymrwymo'r Cyngor i fod yn ddi-garbon net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych. Bydd hefyd yn gwneud cyfraniad uniongyrchol tuag at gyflawni Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol 2021-2030 sydd wedi ei fabwysiadu, gan gynorthwyo'r gostyngiad mewn allyriadau carbon, cynyddu dal a storio carbon, a gwella cyfoeth rhywogaethau ein tir, fel gall y Cyngor lwyddo i

gyflawni targedau 2030 o fod yn ddi-garbon net, bod yn Ecolegol Gadarnhaol, a gweld 35% o ostyngiad yn allyriadau'r gadwyn gyflenwi.

5.2 Bydd cyflawni Uchelgeisiau Amgylcheddol y Cyngor yn cynorthwyo'r Cyngor i wneud ei gyfraniad tuag at bolisi Llywodraeth Cymru i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030, i Gymru gyrraedd ei darged, sydd wedi ei rymo mewn cyfraith, o leihau allyriadau i fod yn ddi-garbon net erbyn 2050; a bydd yn cefnogi dyletswydd statudol y Cyngor dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth".

## **6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn codi'n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

## **7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

7.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## **8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?**

8.1 Y mae canfyddiadau'r adroddiad a meysydd gwella wedi eu trafod gyda Bwrdd Gweithredu'r Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol, Tîm y Prif Weithredwr, a Gweithgor Gwleidyddol Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol.

## **9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Dim angen.

## **10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Nid oes yna risgiau ychwanegol yn codi o'r adroddiad hwn.

## **11. Pŵer i wneud y penderfyniad**

11.1 Nid oes angen penderfyniad.